# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**SLC(3)-17-09 : Papur 4**

## Y Mesur Cydraddoldeb: Nodyn Cyngor Cyfreithiol ar Bwerau Dirprwyedig

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

### 1. Y Cyd–destun

Mae gan Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad hawl i ystyried pwerau sy'n cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog ganlynol:–

"15.6 Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is–ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol".

### 2. Y Mesur Cydraddoldeb

2.1 Mae'r Mesur Cydraddoldeb, a fydd yn gymwys i Gymru a Lloegr, ac i'r Alban ac eithrio cymal 183 (gwelliannau i dai annedd a osodir) yn ddiwygiad mawr ar y gyfraith cydraddoldeb. Mae i'r Mesur 205 o gymalau ac 28 o Atodlenni sydd wedi'u rhannu'n 15 o Rannau. Mae'r Mesur yn cyfuno rhywfaint o gyfraith sydd eisoes yn bodoli gan gynnwys mewn perthynas â thâl cyfartal, gwahaniaethu ar sail rhyw, hil ac anabledd, ac mae'n cyflwyno newidiadau, addasiadau, a rhai darpariaethau cwbl newydd i roi sylw i anghydraddoldebau a/neu feysydd lle mae'r cynnydd wedi bod yn araf. Caiff y rhan fwyaf o'r gyfraith bresennol ei diddymu, ac eithrio rhannau o Ddeddf Cydraddoldeb 2006. ynglyn â chyfansoddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sut mae'n gweithredu; a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 i'r graddau y mae'n ymwneud â Gogledd Iwerddon

Mae'r dadansoddiad canlynol o'r Mesur wedi'i seilio ar y fersiwn a gyflwynwyd yn Nhy'r Cyffredin ar 24 Ebill 2009.

### 3. Diben

Prif ddibenion y Mesur yw:–

(1)cysoni'r gyfraith ar wahaniaethu i sicrhau un ymagwedd, a

(2)cryfhau'r gyfraith er mwyn ategu'r cynnydd ynglyn â chydraddoldeb, drwy wneud y canlynol:–

gosod dyletswydd newydd ar Awdurdodau Cyhoeddus penodol i ystyried anfantais sosio-economaidd wrth gymryd penderfyniadau strategol am sut i arfer eu swyddogaethau;

ymestyn yr amgylchiadau y mae person yn cael ei amddiffyn odanynt rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio oherwydd nodwedd warchodedig;

creu dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus sydd wedi'u rhestru wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ac ar bersonau eraill wrth iddynt gyflawni swyddogaethau cyhoeddus i roi sylw priodol wrth gyflawni eu swyddogaethau i'r canlynol: yr angen i ddileu ymddygiad y mae'r Mesur yn ei wahardd; yr angen i hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu; a'r angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu. Effaith ymarferol hyn yw y bydd rhaid i'r Awdurdodau Cyhoeddus sydd wedi'u rhestru ystyried sut y bydd eu polisïau, eu rhaglenni a'u dulliau cyflwyno gwasanaethau yn effeithio ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig;

caniatáu i gyflogwr neu ddarparwr gwasanaeth neu sefydliad arall gymryd camau cadarnhaol er mwyn galluogi cyflogeion neu gwsmeriaid presennol neu ddarpar gyflogeion neu gwsmeriaid oresgyn neu leihau anfantais sy'n codi o nodwedd warchodedig;

ymestyn y caniatâd i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio rhestrau byr ac arnynt fenywod yn unig ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau tan 2030;

galluogi tribiwnlys cyflogaeth i wneud argymhelliad i ymatebydd sydd wedi colli hawliad gwahaniaethu y dylai gymryd camau penodol i gywiro materion nid yn unig er lles yr hawlydd unigol (a all fod wedi ymadael â'r sefydliad o dan sylw yn barod) ond hefyd er lles y gweithlu ehangach.

### 4. Strwythur

Yn gryno, amlinellir strwythur y Mesur fel a ganlyn:–

4.1 Anghydraddoldebau sosio-economaidd (Cymalau 1 i 3)

Mae dyletswydd sector cyhoeddus yn cael ei osod ar awdurdodau cyhoeddus penodol i roi sylw priodol i ystyriaethau sosio-economaidd wrth benderfynu ar flaenoriaethau strategol.

4.2 Cysyniadau Allweddol Cydraddoldeb (Cymalau 4 i 12 a 13 i 25, Atodlen 1)

Mae'r Mesur wedi'i seilio ar gysyniadau allweddol sy'n cael eu cymhwyso yn y Rhannau o'r Mesur ac sy'n cynnwys:

nodweddion gwarchodedig – oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a thueddfryd rhywiol;

ymddygiad gwaharddedig – diffiniadau gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu sy'n codi o anabledd, gwahaniaethu anuniongyrchol, aflonyddu a fictimeiddio.

4.3 Gwasanaethau a Swyddogaethau Cyhoeddus (Cymalau 26 i 29, Atodlenni 2 a 3)

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn person, ei aflonyddu neu ei fictimeiddio wrth ddarparu gwasanaeth (gan gynnwys darparu nwyddau neu gyfleusterau) neu wrth arfer swyddogaeth gyhoeddus.

4.4 Mangreoedd (Cymalau 30 i 35, Atodlen 4 a 5)

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn person, ei aflonyddu neu ei fictimeiddio wrth waredu mangreoedd (er enghraifft eu gwerthu neu eu gosod ) neu eu rheoli.

4.5 Gwaith (Cymalau 36 i 75 Atodlenni 6, 7, 8 a 9)

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn person, ei aflonyddu neu ei fictimeiddio yn y gwaith neu mewn gwasanaethau cyflogi. Mae'r darpariaethau sydd o dan sylw yn cynnwys tâl cyfartal rhwng dynion a menywod, beichiogrwydd a thâl mamolaeth; ei gwneud yn anghyfreithlon i gontract cyflogaeth atal cyflogai rhag datgelu ei dâl i gydweithiwr; a phwer i'w gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector preifat gyhoeddi gwybodaeth ynglyn â bwlch rhwng tâl y ddau rywedd sef gwahaniaethau mewn tâl rhwng dynion a menywod.

4.6 Addysg (Cymalau 79 i 94, Atodlenni 10, 11, 12, 13 a 14 )

Mae'n anghyfreithlon i gyrff addysgol wahaniaethu yn erbyn disgybl ysgol neu fyfyriwr neu ymgeisydd am le, ei aflonyddu neu ei fictimeiddio.

4.7 Cymdeithasau (Cymalau 95 i 101, Atodlenni 15 ac 16)

Mae'n anghyfreithlon i gymdeithasau (er enghraifft clybiau preifat) wahaniaethu yn erbyn aelodau, cymdeithion neu westeion, eu haflonyddu neu eu fictimeiddio.

4.8 Ymddygiad Gwaharddedig: Atodol (Cymalau 102 i 106)

Mae mathau eraill o ymddygiad wedi'u gwahardd gan gynnwys aflonyddu neu wahaniaethu yn erbyn cyn-gyflogai neu gyn-ddisgybl, neu helpu rhywun i wahaniaethu yn erbyn rhywun arall. Nodir hefyd rwymedigaeth cyflogwyr a phenaethiaid mewn perthynas ag ymddygiad eu cyflogeion neu eu hasiantau.

4.9 Gorfodi (Cymalau 107 i 135, Atodlen 17)

Mae darpariaethau'r Mesur yn cael eu gorfodi drwy'r llysoedd sifil (yn achos gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus; mangreoedd; addysg; a chymdeithasau) a'r tribiwnlysoedd cyflogaeth (yn achos gwaith a meysydd perthynol, a thâl cyfartal).

4.10 Contractau (Cymalau 136 i 142)

O ran contractau, cydgytundebau, neu reolau ymrwymiadau sy'n arwain at wahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio anghyfreithlon, yna mae'r telerau hyn yn anorfodadwy ac yn ddi-rym.

4.11 Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a chamau cadarnhaol (Cymalau 143 i 153, Atodlenni 18 a 19)

Mae dyletswydd gyffredinol yn cael ei gosod ar yr awdurdodau cyhoeddus i roi sylw priodol wrth gyflawni eu swyddogaethau i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio anghyfreithlon; i hybu cyfle cyfartal; ac i feithrin cysylltiadau da.

Cynhwysir darpariaethau i gyflogwyr, darparwyr gwasanaethau, neu sefydliadau eraill gymryd camau cadarnhaol i orsgyn neu i leihau anfantais i bobl am fod ganddynt nodweddion gwarchodedig penodol.

4.12 Personau Anabl: Trafnidiaeth (Cymalau 154 i 181, Atodlen 20)

Rhaid i dacsis, cerbydau llogi preifat eraill, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, a cherbydau rheilffyrdd fod yn hygyrch i bobl anabl gan ganiatáu iddynt deithio mewn cyffyrddusrwydd rhesymol.

4.13 Amrywiol ynglyn ag Anabledd (Cymalau 182 i 183, Atodlen 21)

Mae angen cydsyniad i wneud addasiadau rhesymol i fangreoedd a gwelliannau i dai a osodir.

4.14 Eithriadau Cyffredinol (Cymalau 184 i 190, Atodlenni 22 a 23)

Mae eithriadau cyffredinol yn cael eu nodi i'r gwaharddiadau yn y Mesur sy'n ymwneud ag amrywiaeth o ymddygiad, gan gynnwys camau y mae deddfiad yn gofyn amdanynt; amddiffyn menywod; penodiadau addysgol; diogelwch y wlad; darparu buddion gan elusennau a chystadlaethau chwaraeon.

4.15 Cyffredinol / Amrywiol (Cymalau 191 i 205, Atodlenni 24, 25, 26, 27 ac 28)

Mae pwer yn cael ei roi i un o Weinidogion y Goron gysoni darpariaethau penodol yn y Mesur â newidiadau y mae eu hangen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r UE. Mae hyn hefyd yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ar gymhwyso'r Mesur at y Goron, is-ddeddfwriaeth, dehongli, cychwyn a rhychwant.

## 5. Y Pwerau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru

Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau sy'n dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys pwer i wneud rheoliadau a phwerau i wneud gorchmynion. Mae pwerau yn cael eu rhoi hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cymal 2 – yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru (cyhyd ag y byddant wedi sicrhau cydsyniad un o Weinidogion y Goron) i wneud Rheoliadau sy'n diwygio'r rhestr o Awdurdodau Cymreig sy'n dod o dan y ddyletswydd i ystyried anghydraddoldebau sosio-economaidd yng nghymal 1, ac i gyfyngu neu ehangu'r swyddogaethau hynny sydd gan gorff rhestredig y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddo.

Cymal 91 – yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, ac mae'r cymal yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru ragnodi'r "rheoleiddiwr priodol".

Cymal 143 – yn darparu bod "Awdurdod Cyhoeddus" sydd wedi'i restru yn Atodlen 19 yn dod o dan "ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus" sydd wedi'i nodi yn y cymal hwn, a'i bod yn ofynnol iddo roi sylw priodol i'r canlynol wrth arfer ei swyddogaethau:–

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf hon neu odani;

(b) hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;

(c)meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Er mwyn dod o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, rhaid i gorff fod wedi'i restru fel Awdurdod Cyhoeddus mewn un o'r tair rhan ganlynol o Atodlen 19:–

Rhan 1 ynglyn ag Awdurdodau Cyhoeddus yn gyffredinol;

Rhan 2 ynglyn ag "Awdurdodau Cymreig perthnasol";

Rhan 3 ynglyn ag "Awdurdodau perthnasol yr Alban".

Mae'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sydd wedi'i hamlinellu uchod i ychwanegu Awdurdodau Cyhoeddus at Atodlen 19 a hefyd i ychwanegu at y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol drwy gyfrwng dyletswyddau cydraddoldeb penodol sy'n berthnasol i swyddogaethau penodol yr Awdurdodau Cyhoeddus hynny.

Cymal 145 – yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru (cyhyd ag y byddant wedi sicrhau cydsyniad un o Weinidogion y Goron) drwy Orchymyn i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 19 sy'n pennu awdurdodau Cymreig perthnasol sy'n dod o dan ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus.

Cymal 146 – yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn arfer pwerau o dan gymal 145 (pwer i bennu Awdurdodau Cyhoeddus) os yw'n newid Atodlen 19 mewn perthynas ag Awdurdod Cymreig neu Awdurdod Cymreig trawsffiniol.

Cymal 147 – yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru drwy Reoliadau osod dyletswyddau penodol ar Awdurdodau Cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn Rhan 2 o Atodlen 19 er mwyn caniatáu i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus gael ei gyflawni'n well. Mae'r Cymal yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn cyflwyno Rheoliadau.

Cymal 148 – yn darparu pwer i osod dyletswyddau penodol ar awdurdodau trawsffiniol sydd i'w hychwanegu at Ran 4 o Atodlen 19. Wrth iddynt wneud Rheoliadau mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidogion y Goron, a vice versa.

Cymal 149 – yn darparu y caiff dyletswydd benodol sy'n tynnu ar bwerau yng nghymalau 147 a 148 ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Cyhoeddus ystyried materion a bennir o dro i dro gan Weinidogion Cymru mewn Rheoliadau, ac yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru drwy Reoliadau i addasu neu i ddileu dyletswyddau a osodwyd ar Awdurdodau Cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 19.

Cymal 196 – yn amlinellu'r gweithdrefnau sy'n gymwys i Orchmynion a Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur.

Atodlen 10 – yn ymdrin â hygyrchedd i ddisgyblion anabl ac yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru i wneud Rheoliadau, dyroddi canllawiau, a gofyn am gopïau o'r strategaethau hygyrchedd a gynhyrchir gan yr Awdurdodau Lleol.

Atodlen 17 - yn ymdrin â disgyblion anabl a gorfodi, ac yn rhoi pwer i Weinidogion Cymru i wneud Rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau ar gyfer hawliadau sy'n cael eu gwrando gan Dribiwnlysoedd yng Nghymru.

### 6. Gweithdrefnau ar gyfer Rheoliadau / Gorchmynion

6.1 Yn gyffredinol, bydd Rheoliadau a Gorchmynion a wneir o dan y Mesur yn dod o dan y weithdrefn negyddol, a fydd dim angen i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried.

6.2 Rheoliadau sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yw Rheoliadau sy'n cael eu gwneud ac sy'n gosod, yn addasu neu'n dileu dyletswyddau penodol ar yr Awdurdodau Cyhoeddus. Mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, mae'n rhaid i ddrafft o'r offeryn gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chael ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad cyn iddynt gael dod i rym.

### 7. Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol

Mae'r Mesur yn rhoi'r pwerau canlynol i Weinidogion y Goron a'r Ysgrifennydd Gwladol nad ydynt yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru.

Cymal 1 – caiff un o Weinidogion y Goron ddyroddi canllawiau i'r Awdurdodau Cyhoeddus wrth benderfynu sut i gyflawni'r ddyletswydd anghydraddoldebau sosio-economaidd.

Cymal 6 – yn rhoi pwer i Weinidogion y Goron ddyroddi canllawiau statudol i helpu i benderfynu a oes gan berson anabledd at ddibenion y Mesur.

Cymal 83 – yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi cyfarwyddiadau drwy ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Addysg 1996.

Cymal 109(4)(a) – yn ymdrin ag achosion mewnfudo, gan bennu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod mewnfudo.

Cymal 154 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n pennu safonau technegol sy'n gymwys i dacsis trwyddedig ac sy'n pennu'r gofynion a osodir ar yrwyr tacsis er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn cael defnyddio tacsis yn ddiogel.

Cymal 157 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i awdurdod trwyddedu wneud cais am orchymyn yn ei esemptio rhag gofynion cymal 156 os yw wedi cynnal ymarfer ymgynghori, wedi cyhoeddi'r canlyniad ac wedi cymryd unrhyw sylwadau i ystyriaeth.

Cymal 159 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n caniatáu i awdurdod trwyddedu esemptio gyrrwr rhag y dyletswyddau a geir yng nghymal 159 os yw wedi'i fodloni na all y gyrrwr roi cymorth oherwydd anhwylder meddygol neu gorfforol.

Cymal 160 – yn caniatáu i awdurdod trwyddedu gadw rhestr o dacsis a cherbydau llogi preifat sy'n gwasanaethu ardal ac a all gael eu cyrchu mewn cadair olwynion. Mae'r cymal yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau i'r awdurdodau trwyddedu a rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir.

Cymal 167 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus yn pennu'r safonau technegol sy'n gymwys i fysiau a choetsys, er mwyn rhoi mwy o hygyrchedd i deithwyr anabl gan gynnwys wrth eistedd mewn cadair olwynion.

Cymal 169 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â cheisiadau am dystysgrifau hygyrchedd (neu gopïau ohonynt) a'u dyroddi ac yn darparu ar gyfer archwilio cerbydau.

Cymal 170 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â cheisiadau am dystysgrifau cymeradwyo (neu gopïau ohonynt) a'u dyroddi ac yn darparu ar gyfer archwilio cerbydau.

Cymal 171 – yn cynnwys pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodi defnyddio cerbyd gwasanaeth cyhoeddus o dan amgylchiadau penodol lle nad yw'r cerbyd hwnnw o bosibl yn bodloni'r gofynion mewn rheoliadau o dan gymal 167. Mae hefyd yn caniatáu i gyfyngiadau neu amodau gael eu gosod ar ddefnyddio cerbydau o'r fath.

Cymal 173 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch ffioedd a chodi ffioedd yn unol â hwy am brosesu ceisiadau am gymeradwyaeth fel cerbyd teip, prosesu tystysgrifau hygyrchedd a thystysgrifau cymeradwyo, dyroddi copïau o dystysgrifau a chynnal adolygiadau ac apelau.

Cymal 175 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i sicrhau bod trenau, tramiau a systemau penodol eraill o gludiant wedi'i lywio yn hygyrch i bobl anabl gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwynion.

Cymal 176 – yn rhoi pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchmynion esemptio sy'n awdurdodi defnyddio cerbyd rheilffordd wedi'i reoleiddio mewn gwasanaeth i deithwyr hyd yn oed er nad yw'n cydymffurfio â'r safonau hygyrchedd, neu pe na bai'r modd y mae i gael ei ddefnyddio yn cydymffurfio â'r safonau hynny.

Cymal 178 – yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynhyrchu adroddiad blynyddol am ddefnyddio'r pwerau i esemptio cerbydau rheilffordd wedi'u rheoleiddio rhag y gofynion ynglyn â hygyrchedd. Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu ar gyfer pob blwyddyn galendr a rhaid iddo gynnwys manylion yr holl orchmynion esemptio a wneir o dan gymal 176.

### 8. Diweddglo

8.1 Ar hyn o bryd yng Nghymru, mater sydd heb ei ddatganoli yw cyfle cyfartal. Mae cymalau'r Mesur yn ymdrin â Chymru a Lloegr, a does dim cymalau ar wahân gyfer Cymru yn unig neu Loegr yn unig.

8.2 Mae pwerau dirprwyedig Gweinidogion Cymru yn debyg yn fras i'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo i Weinidogion y Deyrnas Unedig. Pan fo'r darpariaethau'n wahanol, mae hyn yn adlewyrchu setliad presennol datganoli.

8.3 Mae rhai darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau cydsyniad un o Weinidogion y Goron.

**Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**23 Mehefin / June 2009**